## Ymweliad i Ysgol Bodffordd 08.02.2024

### 1. Beth yw natur addoli ar y cyd yn Bodffordd?

Ar ddiwedd pob dydd mae'r disgyblion yn dod ynghyd i gael gwasanaeth dosbarth. Ar ddydd Gwener mae'r Ysgol yn dod ynghyd am Wasanaeth Torfol. Cyfle i ddiolch am yr wythnos a fu ac i ddymuno penwythnos pleserus i bawb. Roedd y gwasanaeth dyddiol a brofwyd gennym ni yma heddiw yn un Cristnogol, a roedden nhw yn ymdrin a moeseg o rhyw fath, ar thema oedd "nid yw cariad yn… haerllug".

Cafodd y plant gyfle i ddyfalu ystyr y gair haerllug, ac aethpwyd ymlaen i egluro pwysigrwydd cariad a charedigrwydd gan nodi fod Duw am i ni ddangos cariad (hen destament) a Iesu Grist yn y Testament Newydd hefyd. Cafodd y disgyblion gyfle i gyfrannu trwy rannu profiad o wneud rhywbeth caredig y bore hwnw. Cafwyd engraifft ble roedd un wedi gwneud brechdan iw fam, iddi gael cinio ac un arall wedi dal y drws i'w chwaer. Trafodwyd pwysigrwydd ymddiheuro, ac egluro fod codi llais weithiau yn dderbyniol er mwyn cael pwynt pwysigrwydd drosodd, ond ei bod yn bwysig peidio defnyddio haerllugrwydd (arrogance).

Roedd pob disgybl yn medru adrodd rheolau'r Ysgol ar goedd: "Geiriau Caredig, Dwylo Caredig, Traed Caredig" a teimlais fod y tri peth yma yn gosod sylfaen gref i ddisgyblion Bodffordd wrth iddyn nhw dyfu i fyny.

### 2. Pa brofiadau mae a bydd y plant yn ei gael yn maes dysgu crefydd a moeseg y Cwricwlwm Newydd?

- Tasg Blwyddyn 6: "Pwy yw Duw?"

Mae'r disgyblion yn edrych ar wahanol grefyddau, ac yn cymharu Duw neu Dduwiau ar hyn o bryd.

Efallai byddai modd ei roi fyny ar dudalen Hwb CYSAG Môn wedyn? Jest syniad! A byddai angen cael caniatad gan Rhys i wneud hyn wrth gwrs achos nes i ddim meddwl am y peth nes dychwelyd adref. Beth ti'n meddwl?)

- Gwyl Sieineaidd: blwyddyn newydd
- Pasg: thema ar ol hanner tymor

### 3 Sut all CYSAG Môn gefnogi yr Ysgol (ion)?

Deallais fod gwell cyswllt rhwng CYSAG ar ysgolion yn y gorffennol. Yn raddol, symudodd y cyswllt i fod yn holiadur. A bellach mae'r cyswllt yn brin iawn. Ond roedd Mr Roberts yn croesawu cael Ymweliad gan aelodau o'r CYSAG heddiw. Gwerthfawrogi cael cyswllt gwell efo CYSAG.

Sonwyd am y syniad o greu tudalen ar hwb cysag am bererindodau lleol Môn, a roedd y pennaeth yn cynhesu yn fawr at y syniad yma. Roedd yn hapus cyfrannu ac mi fyddai yn ei ystyried i fod yn adnodd defnyddiol efo gogwydd lleol.

- Dysgais am y broses “Agor y Llyfr” ble mae disgyblion yn cael cyfle i wisgo fyny ac actio darnau o’r Beibl. Difyr! Digwydd yma ym Modfford pob rhyw 5-6 wythnos. (Tybed oes sgôp am gyflwyniad ganddyn nhw yn y CYSAG rhyw dro?)

A dyna ni, ymweliad byr ond i bwrpas oedd yn agor y drafodaeth am fwy o gyd-weithio, rhannu syniadau a chwilio am ffordd newydd o helpu ein gilydd.